14 Hydref 2009

ENILLWYR YR URDD YN CYCHWYN AR Y DAITH I DISNEYLAND PARIS

Heddiw, bydd pump aelod o'r Urdd yn cymryd y cam cyntaf tuag at berfformio ar lwyfan Disneyland Paris, o flaen cynulleidfa ryngwladol yn 2010.

Fe fydd yr ieuenctid, fu'n fuddugol yn eu cystadlaethau unigol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bae Caerdydd ym mis Mai eleni yn cael eu llongyfarch gan y Prif Weinidog, Rhodri Morgan AC a Peter Welch, Is Lywydd Gwerthiant, Disney Destaniations Rhyngwladol. Mae'r pump sy'n hannu o bob cwr o Gymru a sydd rhwng 7 a 18 mlwydd oed yn paratoi i ganu yng Ngwyl Gymreig Disneyland Paris rhwng y 5ed a'r 7fed o Fawrth 2010 lle cant hefyd y cyfle i gyfarfod Mickey Mouse a chanu gyda Côr Meibion Abertawe o flaen Castell Cinderella.

Bu i Urdd Gobaith Cymru a Disneyland Paris gyhoeddi'r bartneriaeth rhyngddynt, sy'n galluogi pump o enillwyr yr Urdd i ddathlu eu talent arbennig yn gynharach eleni pan ymddangosodd Mickey Mouse yn seremoni agoriadol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bae Caerdydd

Dywed Rhodri Morgan AC, "Mae perfformiadau'r ieuenctid yma'n sicr o ennyn balchder pan fyddant yn ymddangos yng Ngwyl Gymreig Disneyland Paris. Fe fydd yn brofiad ardderchog iddynt ac yn gyfle i arddangos perthnasedd ein traddodiadau cerddorol hyd heddiw a'r talent sydd gennym yma yng Nghymru".

Dywed Peter Welch, , Is Lywydd Gwerthiant, Disney Destaniations Rhyngwladol,, "Mae'n bleser gennym ddathlu llwyddiant y bobl ifanc, talentog yma ac rwy'n edrych ymlaen i'w croesawu i Disneyland Paris ym mis Mawrth. Fel Cymro balch, mae'r Wyl Gymreig yn Disneyland Paris yn rhywbeth yr ydym ni'n falch ohono ac mae'n gyfle i roi llwyfan i wahanol elfennau o ddiwylliant Cymreig yn ogystal â rhoi'r cyfle i'r pump unigolyn yma i ganu i'n gwestai o flaen y Castell, fydd yn fythgofiadwy.

Dywed Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, "Mae'r ffaith fod y pump enillydd yma'n cael perfformio yn Disneyland Paris yn destun balchder i'r Urdd. Mae'r cydweithio sydd wedi bod gyda Disney hyd yma wedi bod yn llwyddiant ac edrychaf ymlaen at gydweithio gyda'r cwmni i'r dyfodol."

Un o'r enillwyr yw Sophie Rudge o Aberystwyth, fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth Cerdd Dant unigol i ddisgyblion blynyddoed 7 i 9 ym mis Mai. Dywed Sophie, "I fi, mae cael canu yn Disneyland Paris yn rhywbeth anhygoel a rhywbeth doeddwn i erioed yn meddwl fyddai'n digwydd i fi. Dwi wrth fy modd ac yn methu aros i gael cychwyn ar y daith i Baris."

Diwedd

Y pump enillydd yw:

Unwad Bl.2 ac iau

Elin Fflur Jones, Pwll Trap, Sir Gaerfyrddin

Unwad Bl.3-4

Llio Meirion Rogers ,Rhuthun,Sir Ddinbych

Alaw Werin Bl.5-6

Rhys Meilyr Jones ,Llangefni,Ynys Môn

Unawd Cerdd Dant Bl.7-9

Sophie Rudge,Aberystwyth,Ceredigion

Sioe Gerdd Bl.10-19oed

Steffan Harri,Dolannog,Trallwng,Powys

Am ragor o wybodaeth – nontudur@urdd.org neu 07968 446369